



# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

**DYDDIAD 22 MEDI 2021**

## **PWNC**

### **ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 3 2021**

#### **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC**

#### **RHESYMAU:**

Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLI ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar yr adrannau risg Hyfforddiant ac Adnoddau a Cyfathrebu.

**Awdur yr Adroddiad:**  
**Chris Moore**

**Swydd:**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
  
**Cyngor Sir Gâr**

**Rhif Ffôn: 01267 224160**

**E-bost:**  
**CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

# CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

**DYDDIAD 22 MEDI 2021**

## **ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 3 2021**

### **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLI ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLI yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o'r risgiau hyfforddiant ac adnoddau a risgiau cyfathrebu. Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg. Mae hyn yn cwblhau adolygiad blynyddol blwyddyn gyntaf y Gofrestr Risg.

Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch4 2021 a bydd yn canolbwyntio ar risgiau yn yr adran Buddsoddiadau.

**ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?**

**OES**

## GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol <b>DIM</b>	Cyllid <b>DIM</b>	Materion Rheoli Risg <b>DIM</b>	Goblygiadau Staffio <b>DIM</b>
---	---------------------------	----------------------	------------------------------------	-----------------------------------

### Polisi

Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

## YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

**NID OES DIM**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN